[mels.brown@hotmail.co.uk](mailto:mels.brown@hotmail.co.uk) 07855488660

**Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist**

Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,

SA33 6LT

## Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau

MOT, servicing, tyres, repairs

Tel: (01267) 253599

*JRB & K Thomas*

*Peniel Road Carms SA32 7DR*



Holistic Therapy Service offering a bespoke  
Treatment based on Healing and providing Relief

**Victoria Peace 07967946873**

[www.peace-massage-therapy.co.uk](http://www.peace-massage-therapy.co.uk)

**Local Business?** You can advertise here for £50

Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk), or just £5 an issue for advertising in Village Voice.

**Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)**

*Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter*

# Recipe Corner

## Caramel and pineapple turnover gateaux

You can also make this recipe with apricots or peaches.

### Ingredients:

- 1 x can of pineapple in sirop
- 200 gr Flour
- 100 gr sugar + 100 gr to make the caramel
- 100 gr melted butter
- 2 eggs
- 2 tbsp single creme or yogurt
- 1 tbsp milk

### Methods:



1. Make a caramel and pour down the bottom of your dish



2. Arrange the fruits on the top of the caramel.  
**Keep the syrup.** You will use it at the end.



3. Mix all the ingredients to make a batter.
4. Pour the batter on the top of the fruit



5. Bake for 25/30 minutes (180 deg C).



6. As soon as out of the oven, pierce the cake with a knife and pour the **syrup** over until it is saturated. I usually don't need all the syrup. Let the cake absorb the syrup for a couple of minutes.



7. Place a larger dish on a top and **very carefully**, turn the the cake over. Wait a little bit and lift slowly on on one side. The gateaux should drop easily.

8. Leave to cool then enjoy.





# Llais y Llan Ebrill 2023

**Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 Fai 2023**

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan



Tu fewn i'r Planetariwm  
Dafydd Wyn Morgan

## Syllu ar y Sêr yn Gymunedol

Cafwyd noson ddiddorol yn syllu ar y sêr nos Wener 31ain o Ebrill y tu fewn a thu allan i'r Neuadd Goffa. Cawsom ein tywys drwy'r holl wybren i ganfod awyr y nos, gan gynnwys yr hen ffordd Eifftaidd o edrych ar y cytser, a sut wnaeth reoli eu bywydau a phryd i adeiladu'r pyramidiau. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol i fod tu allan ni wnaeth amharu ar ei mwynhad, a chawsom ein hannog i syllu ar y sêr a'r lleuad. Bu'n bendant yn wrth fynd iddo ac mi allwn argymell unrhyw drefniant pellach.

*Val a Glenn Langham*

Trefnwyd y noson gan Fenter Mynydd Cambria mewn cydweithrediad ac Wybren Dywyll Cymru, gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Gwnaed y Gacen Ddathlu gan Lleucu o Llanpumsaint. Bydd yna ddilyniant ar lein (y dyddiad i'w chadarnhau), er mwyn helaethu'r diddordeb yn syllu ar y sêr, ac ysgogi unigolion, busnesau a chylchoedd cymunedol i elwa o'r wybrennau tywyll yn ardal Allt Brechfa.



# I'ch Dyddiadur

## Digwyddiadau Unigol

- **Nos Wener 14eg Ebrill** - Cwis (yn ail-leoli o'r dafarn i'r Neuadd). Drysau ar agor am 7yh i gychwyn am 7.30. £5 i gystadlu mewn timau o 5. Dewch a'ch diod a'ch gwydrau eich hunan. Gwobr ariannol i'r enillwyr.
- **Nos Fawrth 9fed o Fai** - Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanpumsaint, i'w ddilyn gan y cyfarfod arferol am 8 o'r gloch yn y Neuadd. Croeso i bawb.
- **Nos Wener 12fed o Fai** - Cwis yn y Neuadd. Drysau ar agor am 7yh i gychwyn am 7.30. £5 i gystadlu mewn timau o 5. Dewch a'ch diod a'ch gwydrau eich hunan. Gwobr ariannol i'r enillwyr.
- **Sadwrn 13eg o Fai** - 2yp hyd 6yh. Dathlu'r Coroni – Neuadd Eglwys Llanllawddog.
- **Sul 14eg o Fai – Sul olaf y Parch Gaynor yn y plwyf.** Un gwasanaeth yn Llanllawddog am 11yb.
- **Nos Lun 22ain o Fai** - Cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor Lles ac Adloniant am 8 o'r gloch yn y Neuadd Croeso i bawb.
- **Nos Wener 9fed o Fehefin** - Cwis yn y Neuadd. Drysau ar agor am 7yh i gychwyn am 7.30. £5 i gystadlu mewn timau o 5. Dewch a'ch diod a'ch gwydrau eich hunan. Gwobr ariannol i'r enillwyr.

## Digwyddiadau Wythnosol

- **Bowlio Dan-do** yn y Neuadd Goffa – bob Nos Lun a Nos Iau – 7.30 - 9.30 (tan ddiwedd Ebrill)
- **Caffi Bach** yr Eglwys bob Dydd Mawrth o 11.30 - 2.30; archebion olaf 2 o'r gloch
- **Dawnsio Salsa** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fawrth o 7 – 8.30 (ail-ddechrau 2ail o Fai am 4 wythnos - dau ddosbarth i gyd-redeg - un i'r ddibrofiad ac ychydig gefndir a'r llall i'r rhai a fwy o glem)
- **Zumba** yn y Neuadd Goffa ar Nos Fercher o 7 – 8; croeso i rai newydd ar unrhyw achlysur (ail-ddechrau 19eg o Ebrill)
- **Cwtsh Cynnes yr Haf** - Neuadd fore Iau 10 hyd 1 o'r gloch)

## Digwyddiadau Addoli arferol

- **Eglwys Llanpumsaint** - Boreol Weddi am 9yb bob Dydd Mercher ac am 9.00 yb bob Sul.
- **Chwarae gyda Duw** – 4 hyd 5 bob prynhawn Dydd Mawrth.
- **Cylch DOT** - I ieuentid dros 10 oed yn Eglwys Llanpumsaint fel arfer bob Nos Iau o 5.30 tan 7.30.  
**Llanllawddog / Sant Celynin Bronwydd:** 11yb ar y Sul

Cyswllt hyd 14/5/2023 Parch Gaynor Jones-Higgs 01267 253158

[gaynorjonshiggs@cinw.co.uk](mailto:gaynorjonshiggs@cinw.co.uk)

Parch Canon Dr Matthew Hill LMA Deon 01267 46842 [matthewhill@cinw.co.uk](mailto:matthewhill@cinw.co.uk)

Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Church

- **Capel Caersalem** Cysylltydd Gwasanaethau Eleri Morris (Ysgrifenyddes) 01267 253895
- **Capel Ffynnonhenri** Cysylltydd Gwasanaethau Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 – Gwyn Nickolas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** Cysylltydd Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

## Gwasanaethau plwyfol wythnosol

- Llun 10.15 – 12.15 Y **FET SYMUDOL** Neuadd Goffa (Tel [01267 220404](tel:01267220404)) Nodwch yr amseriad newydd - drwy apwyntiad yn unig
- Mawrth 2 – 3.45 Fan y **SWYDDFA BOST** – Ger y tafarn
- Mercher 10.45yb hyd 11.45 **LLYFRGELL SYMUDOL** (10.45 – 11.15 Neuadd Goffa 11.15 – 11.45 ger Tafarn y Railwe. Noder - yn ymweld bob tair wythnos yn unig (19 Ebrill – 10 Mai – 21 Mehefin)
- POBYDD **BARA** i'r tŷ (07971 740505);
- FAN **PYSGOD** i'r tŷ (07779 987305)
- Iau **Ffrwythau a Llysiau** i'r tŷ (07969 047045)
- Gwener 1-3 Fan y **Swyddfa Bost** ger y Tafarn

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint.



Wel dyma wlybaniaeth i gychwyn 2023! Wrth lwc fe lwyddodd y maes peldroed ganiatau Panthers Peniel i gadw i chwarae yno. Erbyn y Pasg daw byrddau picnic a seddau newydd mewn concrit cadarn. Felly gobeithiwn am dywydd gwell er mwyn mwynhau'r cyfleusterau newydd. Derbyniwn aelodau i'r Clwb Cant o hyd gan ymestyn y dyddiad cau hyd yr 28ain o Ebrill. Cedwir y tal i £12 o hyd am y flwyddyn, a thynnir y cyfle cyntaf yn fuan wedi'r dyddiad cau. Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar ddydd Llun 22ain o Mai am wyth o'r gloch yn y

Neuadd. Mae'n agored i bawb ddod i weld beth sydd yn digwydd, ac rydym yn croesawu unrhyw aelod newydd i'r Pwyllgor am y flwyddyn.

Yn anffodus bu raid gohirio'r Helfa Drysor er mwyn osgoi gwrthdaro a'r Eisteddfod leol oherwydd i nifer o deuluoedd fod yn awyddus i fynychu'r ddau. Felly rydym yn edrych ar Fis Medi fel amseriad newydd i'r Helfa, felly cadwch lygad am boster. Fel arfer edrychwn am wirfoddolwyr i roi help llaw gyda'r cynnal a chadw a chodi arian i'r Maes Chwarae. Os am gynnig ewch i'n gwefan [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) [<mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com>](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) neu siaradwch a Aaron Jones 07814157946 neu unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor.

# Cyngor Cymuned Llanpumsaint

## **LLANPUMSAINT 100 CLUB**

**Would you like to join Llanpumsaint 100 Club?**

**£12 for the year, with monthly prizes.**

**Membership for 2023/24 is open now.**

The Llanpumsaint 100 Club profit goes towards the running costs of the village park (Llanpumsaint Welfare & Recreational Association).

### **How to Join?**

#### **Cash /Cheque**

Send your name, address and contact details along with cash or cheque (payable to "Llanpumsaint 100 Club") **by 31/03/2023** to Heledd Jones, Waun Wern, Llanpumsaint or Sarah Moore, Neuadd, Llanpumsaint.

#### **SO (Standing Order)**

Arrange a payment to arrive between **01/02/2023** and **31/03/2023** and send your name, address, contact details and payment date to the e-mail address below.

**Acc Name:** Llanpumsaint 100 Club; **Sort Code:** 77-65-05; **Acc No:** 19504768

For more information, contact:

☎ 01267 253372

✉ [llanpumsaint100club@gmail.com](mailto:llanpumsaint100club@gmail.com)

**Thank you and good luck!**

Mae'r Cyngor yn parhau i ffynnu gan ymwneud a phroblemau lleol a chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Cliriwyd y ddyled i waith ychwanegol Archwiliad Cymru ynghyn a chyfrifon 2018/19 drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn, i adael y Cyngor yn wastad i'r dyfodol.

Croesawyd Martin Dicknson, Swyddog Cefnogol Cymunedol yr Heddlu i'n hardal. Rhoddodd arolwg buddiol o faterion perthnasol yr Heddlu yn eu gwaith lleol. Gwrandawom ar gwynion gan drigolion ardal Rhydargaeau ynghyn a materion y ffyrdd a sbwriel, a gwerthfawrogwyd fod y Cyngorydd Sir, Brian Davies wedi ymateb yn union a throsglwyddo'r rhain i'r Cyngor Sir.

Yn ddiweddar cafodd y Cyngorwyr gryn sioc a siom i weld trefniadau trafndiaeth newydd wedi eu gosod gan Adran y Sir ar waelod Rhiw Graig heb ymgynghori o gwbl a Chyngor Cymuned Llanpumsaint. Rydym wedi annog y Cyngor Sir i gynnal cyfarfod ar y safle, ac i atal y datblygiad nes bod

trigolion Llanpumsaint yn cael cyfle teg i fynegi barn. Byddwn yn dal i gynnal y mater hwn. Yn unol â'n cyfrifoldebau newydd paratowyd cynllun hyfforddi gogyfer a'r Cyngorwyr a'r Clerc i sicrhau hyfforddiant iddynt yn eu swyddi. Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi Cynllun Bioamrywiaeth er mwyn nodi'r hyn mae am gyflawni i hybu bioamrywiaeth yn yr ardal.

Mae'r Cyngor yn dal i chwilio am Glerc dros dro - cyflog £2,210 - £2440 y flwyddyn, yn gweithio yn bennaf o adre ar oriau hyblyg. Dyma gyfle gwych i rywun lleol yn meddu ar sgiliau gweinyddol ac yn awyddus i gyfrannu i'r gymuned leol. Byddai bod yn ddwyieithog yn ddelfrydol ond nid o reidrwydd. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael ac am wybodaeth bellach gellir cysylltu ag Arwel Nickolas y Cadeirydd 01267 281365, neu'r clerc dros-dro KumiArliyas [clerc.llanpumsaint@gmail.com](mailto:clerc.llanpumsaint@gmail.com) <<mailto:clerc.llanpumsaint@gmail.com>> neu 07799898002. Nid oes dyddiad cau ac felly ystyrir pob cais yn ôl y galw hyd a wneir apwyntiad.

Erys un safle i Gynghorwr Cyfetholedig - cyfle arall i rywun sy'n awyddus i gyfrannu i'r gymuned a gwaith y Cyngor. Swydd ddi-dâl yw hon am ryw awr neu ddwy'r wythnos a mynychu cyfarfodydd y Cyngor bob yn ail fis, ond gellir hawlio costau.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod bob yn ail fis yn y Neuadd, ac yn agored i'r cyhoedd bob tro. Cyhoeddir y munudau a'r agenda ar wefan y Cyngor.

[www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/ê](http://www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/ê) <[about:blank](#)> Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar y 9fed o Fai yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch - Croeso i bawb!



## Rhandir Llanpumsaint

Nawr fod gwanwyn wrth y drws mae'n bryd hau hadau. Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ac mae yna rai lleiniau o hyd yn rhydd i rywun gyda bysedd gwyrdd - felly cysylltwch ag Eirian 07896 050283 neu Sarah 07811 288104. Mae aelodaeth y flwyddyn gyntaf yn £35 ond £25 o hynny ymlaen, ac fe welwch fod e'n werth hynny pan fyddwch yn conio mewn i'r cynnyrch. A chyda'r ffordd mae chwyddiant yn mynd fe wnewch hynny'n 'ôl ar domatos yn unig.

Mae angen twtio ychydig ar y Rhandir ac fe gytunwyd ar ddydd Sul 4dd o Fehefin 2023 am hanner awr wedi deg y bore. Bydd yr aelodau presennol wrthi ond os oes yna rywun arall yn barod i gynnig help llaw byddwn yn ddiolchgar. Dewch a chyfarpar tocio i helpi Michelle gyda'r stên ddŵr. Byddwn hefyd yn awyddus i gyfrannu planhigion i'r Diwrnod Hwyl pan ddaw dyddiad - cyfle i godi ceiniog neu ddwy i'r gymuned.

A diolch yn fawr i Rosie wnaeth adael y gadair i Eirian am y tymor newydd.

**Becki**

## Bowlio Dan-Do Nebo a Llanpumsaint

Bu'r tymor 2022-23 yn un eithaf heriol i'r Clwb ac mae ein hamser yn yr Adran Gyntaf wedi dod i ben. Gorffennwyd er hynny gyda buddugoliaeth 7-3 yn erbyn Alma ar ein tir ein hunain, ond ddim digon da i'n cadw yn yr Adran Gyntaf. Bydd yna brofiadau newydd yn ein haros yn yr Ail Adran gyda thimau ac wynebaw newydd. Edrychwn ymlaen nawr at gemau Coffa Roy Bowen yn erbyn Bronwydd cyn diwedd y tymor.

Bu pedwar o'n Hieuentid yn cynrychioli Cymru dan 21 ym mis Mawrth - Rhys Williams, Catrin Williams, Catrin Lleucu ac Ioan Day. Aethant i Solihull i gystadlu erbyn Lloegr, ond mewn gemau cystadleuol agos Lloegr aeth a hi yn y diwedd.

Cofiwch fynd i'n gwefan [Llanpumsaintmbc.org.uk](http://Llanpumsaintmbc.org.uk) am y wybodaeth ddiweddaraf. . Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.

## Y Diweddaraf o'r Neuadd

**Gwasanaeth Band Eang:** Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa lleolwyd gwasanaeth Band Eang y Neuadd. Wrth ddefnyddio'r arwyddair **BrechfaFund** gellir mynd iddo y tu fewn a thu allan yr adeilad.

**Dwy swydd wag a'r Bwyllgor y Neuadd:** Os oes gennych ddiddordeb neu angen gwybod mwy, yna cysylltwch a Pamela Jones (Cadeiryddes 07815119073) neu Clare Bishop (Ysgrifenyddes) 079400656300).

## Cymorth i leuhau eich costau ynni

Mae'r cylch Carmarthen Together wedi derbyn grant i osod Adlewyrchwr Rheiddiadir yn rhad mewn cartrefi. Gellir manteisio ar y cyfle o hyd drwy gysylltu â

[carmarhenttogether@gmail.com](mailto:carmarhenttogether@gmail.com)

## Y Cwtsh Cynnes

Yn dilyn dechrau tawel yn Nhachwedd 2022 tyfodd y Cwtsh Cynnes i fod yn ganolfan bywiog creadigol a chymdeithasol. Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa a Gofal y Celfyddydau, gwelwyd trigolion lleol yn arloesi gyda choed helyg mewn amryw ffyrdd. Rydym hefyd wedi gweithio gyda lliwiau dwr, clai a defnyddiau creu eraill. Daeth pobl i mewn hefyd i



fwyhau cawl cartre', cacennau, a chwarae tenis bwrdd. Dros y pump mis daeth dros hanner cant yma i'r Cwtsh.

Fel canlyniad i hyn rydym yn ehangu'n gweithgareddau gwirfoddol dros gyfnod yr Haf. Bydd y Cwtsh Cynnes yn parhau i groesawu artistiaid o Ofal Celf bob wythnos. Felly croeso i bawb ar Ddydd Iau o 10 y bore hyd 1 o'r gloch, gan ddechrau ar 20fed o Ebrill.

Cacen glodwiw a chrefftau i ddathlu Cwtsh cynta'r gaef

'Drwy garedigrwydd cronfa Fferm Wynt bu'r cywaith celf yn y Neuadd yn anhygoel. Buont yn ffordd unigryw i wneud rhywbeth gwahanol a chyd-gwrdd a thrigolion eraill, yr hen a'r cyfarwydd.'

'Bu'r gweithgaredd celf yn ffordd hwylus i ymlacio am ychydig oriau bob wythnos.'

'Rydym yn mwyhau'r holl grefftau a'r cyd-gwrdd gan edrych ymlaen at y cawl a'r cacennau.'



## Clwb Gwili Chwedeg

Rhoddodd Val Newton adroddiad o'i ymgyrchoedd rhyfeddol o godi arian ers 1991 i ni ym Mis Mawrth. Bu'r rhan fwyaf ohonynt er budd gwledydd wnaeth ddioddef effeithiau rhyfeloedd yn bennaf tua dwyrain Ewrop, i estyn cymorth i blant a theuluoedd wnaeth ddioddef yn erchyll wrth weld eu cartrefu'n cael eu bomio i'r llawr. Ar wahân i'w hymgyrchoedd codi arian am fwyd a theganau i'r plant byddai hi a'i gwr yn mynd a'r holl gynnyrch yn union at yr angen lle bynnag oedd hynny. Casglwyd arian hefyd er mwyn ail adeiladu tai a ddymchwelwyd, gan ychwanegu peiriannau golchi a choginio. Er e bod bellach yn ei wythdegau mae Val yn parhau i gymorth plant a theuluoedd yn Ewcrain, a'r teuluoedd hynny sydd bellach wedi alltudio i Sir Gar. Ar ddydd ei hymweliad cododd ein haelodau dros £200. Os am fwy o wybodaeth ewch i Val Newton ar google.

- Llun 24ain Ebrill - Bruce Wallace - Hanes Pentref Nodweddiadol Cymreig.
- Llun 17eg Mai - Gorymdaith i'w drefnu.
- Llun 22ain Mai - Hannah Bartlett - Ambiwylans Awyr Cymru.
- Llun 15fed Mehefin - Gorymdaith i Frycheiniog gan gynnwys prynhawn ar y canal gyda Dragonfly Ferries.
- Llun 26ain Mehefin - Bruce Smith - Ffyrdd lleol y Porthmyn.

Aelodaeth flynyddol nawr yn £10. £2 fydd pris mynediad i gynnwys tocyn raffl. Cwrdd yn Neuadd Bronwydd. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Val Giles - Ysgrifenyddes - 01267b 281194 - Croeso i aelodau newydd.

## Ymgynghoriad ar gofrestri pawb sy'n cadw adar

Mae yna Ymgynghoriad ar reolau cofrestri newydd i bawb sy'n cadw adar ym Mhrydain. Bydd yn para am 12 wythnos.

Bydd yn holi am sylwadau ar reolau cofrestri newydd gan bawb sy'n cadw adar, gan gynnwys y rhai hynny sydd ond yn cadw ond ychydig ffowls am wyau neu adar dof caeth. Bwriedir gofyn iddynt gofrestri rhain i gyd a chadw ac adolygu'r sefyllfa. Ar hyn o bryd ond y rhai sy'n cadw dros hanner cant o adar sydd angen cofrestri.



Gellir gweld manylion yr Ymgynghoriad ar - Poultry and the other captive birds.

Registration in Great Britain - ar gov.uk

**Carolyn Smethurst**

## Dewinwyr Gorllewin Cymru

Cyfarfodydd i gwrdd am 1.45yp i ddechrau am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy? Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

Yn Chwefror mwynhaodd ein haelodau araith a sleidiau Ros Briagha yn dangos sut ffurfiwyd meini hirion heb ein cyfarpar cyfoes. Mae'r ddolmen yn feddrod unigol wedi ei chynnal gan ddwy garreg syth. Yn draddodiadol codwyd hwy gan ffwlcrwm ac wedyn eu rowlio ar lawr dros foncyff, gyda thipyn o nerth dynol.

Ail etholwyd y Pwyllgor yn unfrydol yn y Cyfarfod Blynyddol ym Mis Mawrth heblaw am un ymddiswyddiad. Wedyn mwyhaodd yr aelodau dwrio am wyau Pasg o amgylch y maes chwarae.

- Ebrill 23ain – Awdur a Siaradwr Ian Pegler – Cwpan Nanteos – Esblygiad Crair Sanctaidd – Mae Ian Pegler yn aelod o Ddewinwyr Gorllewin Cymru ac yn gyd- awdur o'r llyfr hynod ddiddorol yma . Darllenwch mwy o <https://www.amazon.co.uk/Nanteos-Grail-Evolution-Holy-Relic/dp/1398106224>
- Mai 21ain - Janis Fry Awdur a Siaradwr - Ywen Gysegredig Cymru - Mae'n debyg fod gan Gymru'r nifer fwyaf o goed ywen y Ewrop a chredir i un bod 5,500 oed.
- Mehefin 25ain – Newyddion cyffroes i bawb sydd am wybod mwy am ddewinio ac i ddysgu'r dulliau, gan ein bod yn cynnal Dydd Agored er mwyn hyfforddi a dysgu. Felly cadwch lygad ar agor am fwy o wybodaeth.

Oherwydd costau cynyddol mae ein Haelodaeth nawr yn £20 y flwyddyn. Mynediad yn £6 i'r aelodau i gynnwys tocyn raffl a £6 i eraill am y cyfarfod cyntaf ond £10 am yr ail yn y gobaith yr ymunwch. Nid oes angen unrhyw gyfarpar, dewch fel i chi. Ewch i Facebook am y diweddaraf neu i'r wefan - <http://westwalesdowers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547 neu [westwalesdowers@gmail.com](mailto:westwalesdowers@gmail.com)



## **Criced menywod Bronwydd**

Ers cael i sefydlu adeg COVID-19, mae tîm criced menywod Bronwydd wedi cael llawer o lawenydd yn chwarae a dysgu am y gêm. Maent yn chwarae gyda phêl meddal ac yn batio mewn parau sy'n galluogi i bawb cymryd rhan beth bynnag yw lefel eu sgiliau. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r menywod wedi bod yn rhan o gynghrair dan do a thu allan Sir Gâr a chawsant lwyddiant yng nghwpan y 100. Mae chwarae gyda'r tîm yn ffordd wych o gymdeithasu a chreu ffrindiau newydd ar y cae ac i ffwrdd ohono. Trefnir nifer o weithgareddau cymdeithasol ar draws y flwyddyn megis noswaith gemau bwrdd, noson wobrwyo, trip i wylïo criced yng Nghaerdydd. Mi fydd y menywod yn hyfforddi ar nos Wener o 6y.h - 7y.h ar gae criced Bronwydd o 21/04/23 ymlaen. Os ydych dros 15 oed mae croeso i chi ymuno, dim angen unrhyw brofiad, cael hwyl a chreu ffrindiau newydd yw'r peth pwysig!

## **Hanner Canmlwyddiant Skanda Vale**

Eleni mae Skanda Vale yn dathlu ei hanner canmlwyddiant gyda thri digwyddiad arbennig wedi eu trefni yn y flwyddyn.

Bydd y dathlu'n cychwyn ar y 9fed i'r 12fed o Fedi pan fyddwn yn agor teml fechan hardd newydd o fewn y Mynachdy, lansio llyfr newydd ac arddangosfa i olrhain esblygiad Sganda Vale dros bum degawd, gan edrych hefyd at y dyfodol.

Yna yn Awst 3dd i'r 6ed byddwn yn agor Taith Pererindod newydd o fewn tiriogaeth y Mynachdy, gan osod nifer o eiconau crefyddol ar hyd y ffordd, fydd yn cynnwys pum sant Llanpumsaint, talu gwrogaeth i etifeddiaeth ysbrydol y tir. Hyn oll yn ychwanegol i eiconau sanctaidd Hindwâidd.

Yn olaf rhwng 28ain a 30ain o Hydref byddwn yn dathlu pen-blwydd ein sylfeinydd, Guru Sri Subramanium gyda lansiad ffilm a rhaglen o ddarlithiau, dawns a cherddoriaeth

Daw manylion pellach yn cynnwys rhaglen ddyddiol i'r chadarnhau yn nes ymlaen, a chyhoeddir hi ar ein gwefan [www.skanavale.org](http://www.skanavale.org) <<http://www.skanavale.org>> Bydd yna groeso cynnes i bawb ac ni fydd raid i neb fwcio ymlaen llaw. Jyst dewch!

Adeg ein cyfnodau prysur gwyddom i nifer y cerbydau, fydd yn mynd a dod, ar hyd lonydd cul yn peri gofid. Felly byddwn yn cyflogi Cwmni Rheoli Trafnidiaeth, i gyd-weithio gyda stiwardiaid gwirfoddol er mwyn ysgafnhau'r baich. Mae gennym Gynllun Cysylltu i drosglwyddo negeseuon i'n hymwelwyr. Rydym hefyd yn annog y Cyngor Sir i greu mwy o lecynnau pasio ac arwyddion ynghyd a gwella wynepryd yr heolydd. Gobeithio bydd y mesurau hyn yn lleihau'r anawsterau i'r trigolion lleol.

Mae yna lawer gynnwrf a gorfoledd yn ei mysg wrth fynd ati drefnu ein hanner canmlwyddiant. Gobeithio y gwnewch ymuno a ni ddathlu ein cyfraniad unigryw i'r gymuned leol, a chyfoethogi etifeddiaeth ysbrydol y darn o dir hynafol yma.

***Kumi Ariyadasa***

## Caffi Atgyweirio Caerfyrddin




Ffurfiwyd y Caffi Atgyweirio i arbed faint o bethe i ni'n taflu bant yn ddiangen. Daw cylch o wirfoddolwyr brwdfrydig ynghyd i atgyweirio pob math o bethau, yn lampau, offer, peiriannau glanhau, teganau, cyfrifiaduron, tlysau a dillad, a mwy a mwy o bethau eraill. Atgyweirir y rhan fwyaf tra bo'ch yno, ond os oes angen prynu darn newydd bydd ein gwirfoddolwyr yno i'ch helpi gydag archebu. Pan ddaw i mewn dewch fawn ag e' ac mi wnewn ei osod yma.

Mae'r atgyweirio i gyd yn rhad ac am ddim, ond derbynnir rhodd gyda diolch, a bydd hyn yn help i dalu rhent y neuadd a thalu am glud neu anghenion eraill. Os oes gennych reddf at atgyweirio ac yn barod i wirfoddoli yna byddwn yn falch

i'ch croesawu. Byddwn yn cwrdd ar yr ail Sadwrn o'r mis yng nghapel Wesley, Heol Sant Ioan Caerfyrddin 2 y prynhawn hyd 5 o'r gloch.

Ewch i Facebook i edrych am Carmarthen Repair Cafe am wybodaeth bellach

## Adar Ymfudol Llanpumsaint ar ffo



Penddu (yn pwyso 17gram) yn canu bant ar yr hen reilffordd - newydd gyrraedd o'r canolfor / De'r Affrig

Clare Bishop

## Sioe Ffasiynau 'Pwddin a Phrosecco'

Ar y 10fed o Fawrth daeth pwyllgor neuadd Llanpumsaint a Ffynnonhenri ynghyd a CRhA Ysgol Llanpumsaint at ei gilydd i drefnu Sioe Ffasiynau 'Pwddin a Phrosecco'. Diolch yn fawr i'r busnesau lleol am gymeryd rhan - Llawn Cariad, Calon Mam, tRHInket a Golwg. Mae'n debyg bod gan y pentre' modelau arbennig! Cododd swm o dros £1,100 ar y noson, bydd yr arian yn mynd tuag at y ddau bwyllgor.

**Donna Thomas**



Ar y Ffordd

## Gwyddoniaeth y Dinesydd

### Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru



Mae Gwybodaeth Bioamrywiaeth yn un o 4 canolfan rhanbarthol sy'n ymdrin â siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro. Dyma wefan lle gellir lawr lwytho cofnodion bywyd gwylt, gan gynnwys y rhai cyfarwydd sydd yn aml yn cael eu hanwybyddu. Hyn oll i gyfrannu at ein gwybodaeth o'r maes. Cofnodir y manylion ar sgwaryn 1 km, ac mae yna dros fil o gofnodion am Llanpumsaint gyda'r cyntaf yn dyddio o 1984.

Gellir cofnodi gyda'r ganolfan mewn sawl ffordd - drwy E-bost, ar y wefan neu ddefnyddio LERC Wales ap. Ceir mwy o wybodaeth yma – <https://www.bic.org.uk/wildlife-recording/> Mae yna dudalen Facebook West Wales Biological Recording (<http://www.facebook.com/groups/westwalesbiorecording/>) Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol drefnir gan yr elusen Plantlife i annog pobl beidio a thorri ei lwant yn fis Mai gan eu gadael i dyfu'n hir. Bydd hyn yn galluogi planhigion bychan fel meillion du a gwyn, llygad y dydd, dant y llew ar eraill, gael cyfle i flodeuo, gan gynnig cyfle i bryfed gan gynnwys gwenyn beillio.

Ar ddiwedd Mis Mai bydd Plantlife yn cynnal gweithgaredd cyngor gwyddonol y dinesydd (Mae pob blod yn bwysig <https://www.plantlife.org/campaigns/nomowmay/>) hyn yn datgelu arolwg o iechyd y lawntiau. Mae Plantlife am wybod pa flodau sydd fwyaf niferus ar y lawnt er mwyn er mwyn darganfod faint o neithdar sy'n cael eu cynhyrchu. Bydd eich cyfiri neithdar chi yn datgelu faint o wenyn mae eich lawnt yn gallu cynnal.

**Clare Bishop**



# Achub Bywyd Cymru yn annog pawb yn Llanpumsaint a'r ardal i ddysgu CPR

Bob blwyddyn bydd dros 6,000 o bobl yng Nghymru yn cael ataliad y galon yn y gymuned, a bydd hyd at 95% yn marw, oni bai bod rhywun yn fodlon camu i'r adwy ar unwaith gyda Adfywio Cardio-pwlmonaidd (CPR) a defnyddio diffibriliwr.

Sefydlwyd Achub Bywyd Cymru gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r gyfradd oroesi hon, a'n huchelgais yw annog pawb yng Nghymru i fod yn ymwybodol o'u gallu i achub bywydau.

Mae ataliad y galon yn argyfwng meddygol. Does dim sefyllfa feddygol arall yn dibynnu ar y gymuned i fod yn barod i helpu, a hynny ar frys. Am bob munud mae CPR yn cael ei oedi, mae goroesiad yn gostwng 10%.

Mae tua 80% o ataliadau y galon y tu allan i'r ysbyty yn digwydd yn y cartref ac fe all ddigwydd i unrhyw un, ar unrhyw adeg. Mae llawer sy'n cael ataliad y galon yn aml yn gallu ymddangos yn ffit ac yn iach. Efallai y bydd rhai yn cofio'r diwrnod y cafodd pêl-droediwr rhyngwladol Danaidd, Christian Eriksen, ataliad y galon yn ystod gêm yn yr Euros 2020. Cafodd ei achub gan CPR, diffibriliwr, ac ymateb disymwth y bobl o'i gwmpas.

Ond mae llai na hanner oedolion Cymru yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n hyderus i berfformio CPR. Fodd bynnag, pan fyddant yn deall, drwy ffonio 999, y bydd y sawl sy'n cymryd galwadau yn eich siarad drwy sut i wneud CPR a'ch cyfeirio at y diffibriliwr cofrestredig agosaf, dywedodd 73% o oedolion y byddent yn teimlo'n fwy hyderus i ymyrryd. Helpu i roi'r hyder hwn i bobl yw thema ein hymgyrch hysbysebu newydd, 'Cofiiwch, mae help wrth law' ac mae bellach i'w weld ar y teledu, ac ar sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol ledled Cymru.

Mae paratoi yn bwysig a thrwy gymryd ychydig funudau i ymweld â'n gwefan, gallwch ddysgu sgiliau sylfaenol CPR yn: <https://cydweithrediad.gig.cymru/ABC>

A oeddech chi'n gwybod bod pedwar diffibriliwr yn Llanpumsaint? Mae pob un wedi'u cofrestru ar Y Circuit – Y Rhwydwaith Diffibriliwr Cenedlaethol - ac mae hyn yn caniatáu i Wasanaeth Ambiwylans Cymru ddod o hyd iddyn nhw mewn argyfwng. Edrychwch ar eu holau, parchwch nhw, un diwrnod gallent achub eich bywyd.

I gael rhagor o wybodaeth am eich cyswllt diffibriliwr cymunedol Carolyn Smethurst 01267 253308

## Lleoliadau'r Peirannau Adfywio Cofiwch fynd i'n gwefan Llanpumsaint.

Tu fas y Neuadd Goffa SA£33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railway SA33 6BU

Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo SA33 6HN

## Caffi Angau

Bydd Clafdy Skanda Vale yn Saron yn cynnal Caffi Angau ar Sadwrn 13eg o Fai rhwng 10.30 y bore a chanol dydd.

Bydd cyfle i bobl ymweld am banded a chacen gan rannu eu meddyliau, eu profiadau a'u syniadau ynghyn a therfyn bywyd, marw a chystudd. Bydd y digwyddiad yn agored i bawb drafod hyn oll mewn awyrgylch cynnes a cyfeillgar heb feirniadaeth.

Edrychwch ymlaen at wrando a rhannu paned a'n cacen hyfryd gyda chi. Croeso i bawb.

# Chwedl y Casglu Sbwriel

Yn ystod Chwefror a Mawrth daeth dull newydd i fodolaeth o gasglu Bagiau Du, Bagiau Glas a chasglu Poteli. Os ydych yn mynychu cylch Llanpumsaint o Facebook byddwch yn ymwybodol o' beth aeth o le, a'r hyn geisiais wneud i gywiro'r sefyllfa ar ran ein trigolion. I'r rhai nad ydynt yn ymwybodol dyma grynodedb o'r hyn ddigwyddodd.

Adeg dechrau'r drefn newydd ac ar ôl hynny wynebon amryw o broblemau - e.e. Bag Du heb ei gasglu a'r Blwch Poteli heb gyrraedd. Er cwynion di-ri i'r Cyngor aeth yr anrhefn ymlaen dair gwaith wrth i dargeddi gael eu methu. Hyd yma ni chasglwyd yr un bag du ar amser. Cyrhaeddodd y blwch poteli o'r diwedd. Erbyn hyn maent yn cael u casglu ar yr amser iawn. Dioddefodd y pentref yr un math o ddryswch, gyda rhai yn derbyn mwy nag un blwch, ac ambell dro casglwyd ond un ochr yr hewl yn unig.

Gwnes grynodedb o'r holl gwynion a'i anfon i'r Cynghorwr Brian Davies i'w drosglwyddo i'r Adran Sbwriel Y Sir. Fe aeth e' hefyd i bob tŷ yn y pentref ynghyd ag aelod o'r Cyngor er mwyn sicrhau fod pawb y derbyn y bagiau a'r blychau iawn, a'u bod yn cael eu casglu yn ôl y trefniant. Dywedodd Brian fod yna anawsterau cychwynnol wedi digwydd, ac fe ymddiheurodd am bob anhawster wnaeth gymerid lle. Os ydych o hyd yn dioddef am ryw reswm yna cysylltwch â'r Adran Sbwriel y Sir.

Cadwch yn iach a diogel – Eich cyfaill amrywiol yn siarad sbwriel y tro hwn.  
Y diweddaraf – Dau Fag Du heb eu casglu lan ein hewl.

**Dave**

**BRECHFA  
STORIES FROM THE FOREST  
MAY 2023**

**13.05 - Keepers 10am-3pm (Lunch 12pm-1pm)**  
**Copper Keyring Smithing**  
Come along to Keepers and enjoy the day learning smithing skills as you work with copper metal to create your own copper leaf keyring!

**15.04 - Keepers 10yb-3yp (Cinio 12pm-1pm)**  
**Cylch Copr**  
Dewch i Keepers a mwynhewch y diwrnod yn dysgu sgiliau gof wrth i chi weithio gyda metal copr i greu eich cylch allweddai dail copr eich hun!

**20.05 - 12pm - 2pm Brechfa Church Hall**  
**Brechfa Stories From The Forest Community Exhibit**  
It's a party in the church hall to bring together everyone who has enjoyed the Stories From The Forest project and share their wonderful artworks! There will be lots of tea and lots of cake! See you there!

**20.05 - 12yp - 2yp Eglwys Neuadd Brechfa**  
**Arddangosfa Gymunedol**  
Mae parti yn neuadd yr eglwys i ddod â phawb sydd wedi mwynhau prosiect Straeon O'r Goedwig ynghyd a rhannu eu gweithiau celf bendigedig! Bydd llawer o de a llawer o gacen! Welwn ni chi yno!

All children must be accompanied by an adult.  
Book your spaces to any of the sessions or ask for accessibility information by emailing [sarah@acgc.co.uk](mailto:sarah@acgc.co.uk) or phone 01267 243815  
Rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn.  
Archebwch eich lleoedd ar gyfer unrhyw un o'r sesiynau neu gofynnwch am wybodaeth hygyrchedd drwy e-bostio [sarah@acgc.co.uk](mailto:sarah@acgc.co.uk) neu ffoniwch 01267 243815

**Arts Care Gofal Celf**  
**Cyngor Celfyddydau Cymru**  
Arts Council of Wales  
**Ynghyd â**  
Sefydliad Cymru  
Welsh Government  
**COOMRA GYMUNEDOL - PREISEB WYNT**  
COMMUNITY FOREST  
**BRECHFA FOREST - WYNT WYNT FARM**

## Hanner canrif yn ôl - 1973

Mas yn y byd mawr 'na 'roedd yna lawer yn digwydd! Wrth i'r milwr Americanaidd olaf adael Fietnam cyrhaeddodd 'adre i'r newyddion fod Ymchwiliad Watergate wrthi'n hela Richard Nixon yr Arlywydd. Yma, ymunodd Prydain a'r Undeb Ewropeaidd, codwyd oed gadael ysgol i 16, bu raid ymbalfalu a'r Dreth Ar Werth am y tro cynta'. Ond daeth cyfle i wragedd ddathlu wrth i'r cyntaf ohonynt gael mynediad i'r Gyfnewidfa Stoc yn Llundain. Ond buan iawn wedyn daeth newyddion drwg i bawb wrth i ganlyniadau'r Rhyfel You kippur achosi pris olew i saethu lan 70% ac effaith hyn oll arwain at yr wythnos tridiau o waith yn unig. Er i Picasso farw erys ei gampweithiau celf i'r cenedlaethol a ddaw.

Felly beth am Lanpumsaint hanner canrif yn ôl? Pentref tipyn llai o faint oedd gennym, spelen cyn i nifer o dai ymddangos ar dir Llandre a draw ger Glanyrynys. Dal yn ddiflas ar gau ac angof ers deng mlynedd oedd yr orsaf drenau a hen Go-op y ffermwyr, lle bu cymaint o gynnwrf cynt. Ond 'roedd gan y pentref siop lewyrchus (enwedig wedi cloch prynhawn yr ysgol) a gorsaf betrol prysur, dan Nansi ac Emrys (Pwmps). Hyn ar safle presennol siop trin gwallt Salon y Saint. Prysur hefyd oedd tafarn y Railwe, gyda chriw prynhawn yn rhoi'r byd yn ei le, peints cyflym ar ôl gwaith i nifer, ac yna ymlacwyr yr hwyr a bois y darts a'r dominos.

Lawr yn yr ysgol gwelwyd y Prifathro newydd Len Richards yn cyflwyno mwy o iaith yr iard i mewn i'r adeilad; y gwersi Cymraeg ar gynnydd. Mae'n amlwg i'r dulliau dysgu gyfnewid yn enfawr dros yr amser, heddiw yn llai ffurfiol a mwy technegol, ac i'r plant daeth y byd rhithiol i ddisodli'r byd iawn. 'Nol yn 1973 byddent fwy neu lai yn adnabod bron pawb yn Gwili Teras gan wybod pwy oedd yn Bro Celynin. Er bod cerdded i'r ysgol yn golygu ambell wlychfa 'roedd yna fanteision hefyd; gwyddent ble oedd Pantiouar a Bwlchtrap yn Nebo, Tredarren, Henfryn neu Frongoch tua Ffynnonhenri, neu Cwmcreigiau (ar fin newid i Skanda Vale) ag Alltgaredig i'r gogledd.

Bryd hynny byddai mynd a dod cyson i'r ciosg ffon y tu allan i'r eglwys, handi dros ben i bawb oedd heb gael un yn y tŷ, neu os am air cyfrinachol gyda'r wejen. Ambell i gerbyd welech ar yr hewl, felly'n ddigon saff i'r gemau peldroed a chriced neu hopscotj, dim son am gae chwarae'n unman. Ond bydden rhaid cadw clust am sŵn fan Jac Pantglas yn llawn rhwd a lloi bach dryslyd. Deuai Bws Blossom yn gyson i gario i'r dre, ond adeg gwyliau'r haf aeth nifer i siopa i Landysul ar ddydd Sadwrn; anobeithiol cyrraedd Caerfyrddin oherwydd tagfa ceir yr holl ymwelwyr yn anelu am Sir Benfro. Fe drowyd yr A40 yn faes parcio cwynfanllyd am oriau di-ben-draw.

Dal eu tir wnâi cynulleidfaoedd yr Eglwys, Bethel lawr hewl, Caersalem, Ffynnonhenri a Nebo, ond pwy allai ragweld bryd hynny na fyddai Methodistiaid Bethel yn gôr- oesi ymhellach na'r degawd cyntaf o'r ganrif nesaf. Digon o bysgod o hyd i ddenu'r potsiwr fin nos a'r bechgyn ar ôl llysywen yn y dydd. Dal i gynnal i gynhyrchu llaeth wnâi y rhan fwyaf o ffermydd bychan, ac mi welech a chlywed ffermwyr wrthi ar y caeau. Ddim llawer o Saesneg i'w glywed ar wahân i ambell ymwelydd neu ffermwr ar ffo, ond roedd llais a chwerthiniad Bob Jameson eisoes wedi ymledu'n ymhellach na Henfryn.

**Arwyn 2023**



# Cornel Resait

## Gato Trosiant Caramel a phinwydd

Gellir gwneud hwn hefyd gydag eirinen wlanog a bricyllen

### Cynhwysion:

Un tin o binwydd mewn yn surop

200gram o fflŵr

100 gram o siwgr + 100 gram i wneud y caramel

100 gram o fenyn wedi toddi

2 wy

2 lwyed o hufen neu iogwrt

1 llwyed o laeth

### Dull



1. Gwnewch garamel a'i arllwys i waelod y ddisgled



2. Trefnu'r ffrwythau ar ben y caramel - Cadwch y syrrip - Bydd ei angen.



3. Cymysgwch yr holl gymhwyson i wneud y cyfew.  
4. Rhowch y sbwng ar ben y ffrwythau.



5. Pobwch am 25 i 30 munud ar 180c



6. Cynted allan o'r ffwrn torrwrch y gacen fforc ac arllwys y syrrip drosto. Efallai na fydd angen y syrrip i gyd. Gadewch i'r gacen amsugno'r syrrip.



7. Rhowch ddish fawr uwchben a throwch y gacen drosodd yn ofalus. Wedi aros am ychydig trowch ar ei hochor. Dyle'r gato ddisgyn wedyn.

8. Gaewch iddi oeri cyn ei mwynhau

